| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **Dyddiad:** | 09 Rhagfyr 2021 |
| **Teitl:** | Lefel diweithdra a chefnogaeth yn ôl i swyddi |
| **Awdur:** | Dylan Griffiths<br>Rheolwr Datblygu Economaidd, Adran Economi a Chymuned |
| **Aelod Cabinet:** | Gareth Thomas<br>Aelod Cabinet Economi a Chymuned |
| **Pwrpas:** | Adroddiad ar gais y Pwyllgor Craffu yn amlinellu'r newidiadau yn niweithdra a pa gefnogaeth mae'r Cyngor yn ei gynnig i bobl Gwynedd. |

## 1. Cefndir

1.1. Mae sicrhau gwaith yn allweddol i les unigolion ac yn cael effaith gadarnhaol ar deuluoedd a'r gymuned yn ei gyfanrwydd.

1.2. Yn hanesyddol mae cyfraddau diweithdra yng Ngwynedd wedi bod yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Er hyn, roedd heriau o ran; sicrhau fod pawb sy'n gallu yn rhan o'r llafurlu, natur dymhorol cyflogaeth a chyfraddau cyflog isel.

1.3. Roedd y Cyngor yn weithgar yn ymateb i'r heriau hyn o dan adain Cynllun y Cyngor gyda'r rhaglen 'Mwy o drigolion Gwynedd yn chwarae rhan lawn yn y byd gwaith' yn darparu cefnogaeth i drigolion drwy law'r tîm Gwaith Gwynedd o fewn y Gwasanaeth Datblygu Economaidd.

1.4. O ganlyniad i ardrawiad pandemig y coronafeirws ac effeithiau gadael yr Undeb Ewropeaidd, mae'r deunaw mis diwethaf wedi bod yn gyfnod eithriadol o dymhestlog i bobl Gwynedd o ran y byd gwaith.

1.5. Mae'r adroddiad yma yn amlinellu'r newidiadau ac ymateb y Cyngor ynghyd â'r heriau i ddod. Dylid ystyried yr adroddiad ochr yn ochr gyda'r adroddiad gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu ar yr 21ain o Hydref oedd yn amlinellu anghenion busnesau ac ymateb y Cyngor.

## 2. Y sefyllfa fel ac yr oedd cyn Mawrth 2020

2.1. Fel y nodir uchod, yn hanesyddol roedd diweithdra yng Ngwynedd wedi bod ychydig yn is na'r cyfartaledd, gan ddilyn yn fras y patrwm yn genedlaethol (wele graff 1 yn Atodiad 1).

2.2. Ym Mawrth 2020 roedd y gyfradd o'r gweithlu yn hawlio budd-dal yn gysylltiedig â chwilio am waith yn 2.6% sef 1,985 o unigolion o'i gymharu â 3.1% ledled Cymru[1].

2.3. Fodd bynnag, roedd cyfraddau segurdod (sef unigolion oed gwaith dim yn gweithio neu'n chwilio am waith) yng Ngwynedd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y DU[2] ac yn broblem arbennig o fewn rhai cymunedau.

2.4. Yn gyfochrog, roedd y gyfran o'r gweithlu ddim yn cyflawni eu llawn botensial o ganlyniad i fod yn gweithio'n rhan-amser yn her gyda 38% o swyddi Gwynedd yn rhan amser o'i gymharu â 32% ar draws Prydain Fawr[3].

2.5. Er mwyn ymateb i'r heriau hyn roedd Cyngor Gwynedd wedi sefydlu tîm Gwaith Gwynedd o fewn Gwasanaeth Datblygu Economaidd yr Adran Economi a Chymuned gan ddenu arian gan Ewrop a Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaeth i helpu unigolion di-waith ac, yn bennaf, trigolion segur ennyn y sgiliau anghrediniol a chwilio am swyddi addas.

2.6. Roedd tîm Gwaith Gwyned hefyd yn gweithio gydag ystod o gyflogwyr o fewn y sir i'w cynorthwyo i sicrhau gweithwyr addas.

2.7. Ar drothwy'r pandemig roedd wyth o swyddogion o fewn tîm Gwaith Gwynedd.

## 3. Gwedd gyntaf pandemig y coronafeirws (2020/21)

3.1. Gyda chychwyn y cyfnod clo gyntaf mewn ymateb i COVID-19 gwelwyd chwildro yn y tirlun cyflogaeth yng Ngwynedd.

3.2. Ffrwydrodd y nifer o bobl Gwynedd oedd yn ddi-waith bron yn unionsyth. Neidiodd y nifer y ddi-waith i bron i 8 mil o unigolion erbyn Medi 2020 cynnydd o 115% ar y nifer yn flaenorol[4] (gweler graff 2 yn Atodiad 1). Roedd y cynnydd yng Ngwynedd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan.

---

1 Data gan System Weinyddu'r Ganolfan Byd Gwaith, yr Adran Gwaith a Phensiynau o safle StatsCymru (dolen)
2 Data cyfraddau anweithgarwch economaidd gan eithrio myfyrwyr gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol o safle StatsCymru (dolen)
3 Data gan Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol o safle Nomis (dolen)
4 Data gan System Weinyddu'r Ganolfan Byd Gwaith, yr Adran Gwaith a Phensiynau

3.3. Yn gyfochrog, erbyn Gorffennaf 2020 roedd 16,700 sef 36% o'r holl weithwyr yng Ngwynedd i ffwrdd o'r gwaith ac yn rhan o gynllun Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws (ffyrlo) Llywodraeth y DU[5].

3.4. Ymatebodd Cyngor Gwynedd yn gyflym i'r her gan addasu dull a gweithgaredd y tîm Gwaith Gwynedd er mwyn cyfarch anghenion trigolion y sir.

3.5. Sefydlwyd Tasglu Diweithdra traws adrannol, yn cynnwys aelodau Cabinet perthnasol ac uwch swyddogion i arwain ar ddeall ac ymateb i'r sefyllfa.

3.6. Trosglwyddwyd sylw'r tîm Gwaith Gwynedd dros nos o gefnogi unigolion ar gyfrifon y farchnad llafur i ddarparu cyngor a chefnogaeth ymarferol i bobl oedd wedi colli eu swyddi yn ddiweddar.

3.7. Roedd newid sylweddol hefyd i'r dull o ddarparu cymorth; gan newid o wasanaeth wyneb yn wyneb i gefnogaeth o bell:

- sefydlwyd canolfan alw rhithiol yn darparu llinell gymorth ar gyfer bobl Gwynedd
- cynhaliwyd ymgyrch farchnata i hyrwyddo'r ddarpariaeth
- darparwyd hyfforddiant a chymorth i unigolion a grwpiau dros y ffôn a drwy ddulliau amgen eraill megis WhatsApp a MSTeams
- cefnogwyd sefydlu darpariaeth wedi ei deilwra i anghenion Gwynedd ar gyfer cefnogi pobl ifanc i waith o dan adain rhaglen Blaentroed Llywodraeth y DU

3.8. Er gwaetha'r heriau, llwyddodd y tîm i gefnogi 68 o unigolion i waith yn uniongyrchol (gweler graff 4 yn Atodiad 1) a nifer uwch yn anuniongyrchol drwy hyrwyddo'r cyfleoedd a'r cymorth ar gael gan Gwaith Gwynedd ac eraill.

3.9. Ar sail llwyddiant Gwaith Gwynedd sicrhawyd adnoddau pellach gan Lywodraeth Cymru yn ystod yr Hydref yn 2020 i gynyddu'r nifer o swyddogion o fewn y tîm i 15.

## 4. Ail wedd y pandemig ac ardrawiad gadael yr Undeb Ewropeaidd (2021/22)

4.1. Gyda diwedd yr ail gyfnod clo a diwedd y cyfnod pontio wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd gwelwyd newid sylweddol eto yn y farchnad llafur yng Ngwynedd hyd yma yn ystod 2021/22.

[5] Data gan CThEM o gwefan gov.uk (dolen)

4.2. Mae'r sefyllfa bellach wedi troi ar ei ben gyda'r brif her yn deillio o anallu busnesau i sicrhau staff digonol / addas. Mae'r rhesymau am y diffyg yn ansicr ond yn debygol o fod yn gyfuniad o sawl ffactor megis:

- cynnydd yn y nifer cwsmeriaid
- yr angen am fwy o staff i gydymffurfio gyda rheoliadau COVID-19
- cyfraddau uwch o salwch o ganlyniad i'r coronafeirws
- diffyg argaeledd gweithwyr o rannau eraill o'r Undeb Ewropeaidd
- nifer uchel o weithwyr yn parhau ar ffyrlo
- gweithwyr wedi dewis ymddeol a pheidio dychwelyd i'r gwaith wedi i'w cyfnod fyrlo ddod i ben
- Canolfannau Byd Gwaith dim yn gorfodi unigolion i chwilio wedi i reoliadau gael eu llacio mewn ymateb i COVID-19

4.3. Mae'r newid i weld yn glir yn graff 3 yn Atodiad 1 sydd yn dangos y nifer yn chwilio am waith yn 2020 a 2021 o'i gymharu â 2019.

4.4. Gyda'r newid yn gofyn addaswyd gweithgaredd y tîm Gwaith Gwynedd unwaith eto i hyrwyddo'r cyfleoedd i bobl Gwynedd a chynyddu'r ymdrech i helpu unigolion ar gyrion y farchnad llafur fagu'r sgiliau i ddychwelyd i waith. Mae gweithgaredd y tîm hyd yn hyn eleni wedi cynnwys:

- trefnu ffair swyddi i hyrwyddo'r cyfleoedd o fewn meysydd megis lletygarwch a'r cymorth ar gael i unigolion
- gweithio'n agos gyda meysydd blaenoriaeth megis gofal a'r gwasanaeth profi ac olrhain gan baratoi unigolion yn unswydd i'r cyfleoedd ynghyd â chynghori ar sut ellid addasu swyddi i ddenu'r gweithwyr sydd ar gael
- sefydlu hysbysfwrdd ar gyfer swyddi yn y sir ar Facebook i hyrwyddo cyfleoedd a hwyluso'r cyswllt rhwng cyflogwyr ac unigolion yn ceisio gwaith (mae oddeutu 800 o swyddi wedi eu hysbysebu yno hyd yma)
- darparu a hyrwyddo hyfforddiant o fewn meysydd ble mae'r diffyg gweithwyr yn fwyaf amlwg gan gynnwys gyrwyr cerbydau HGV
- cydlynu a hyrwyddo'r ddarpariaeth cefnogaeth i waith gan y Cyngor ac eraill
- gweithio'n ddwys gydag unigolion sydd wedi eu heithrio o waith am resymau megis anghenion iechyd, i'w cael yn barod i ddychwelyd i'r gweithle a sicrhau fod cyflogwyr yn addasu eu harferion

4.5. Mae ffrwyth llafur Gwaith Gwynedd i'w weld yn glir yn eu canlyniadau. Eisoes eleni mae dros 150 o unigolion wedi llwyddo i sicrhau swydd wedi iddynt dderbyn cefnogaeth y tîm (wele graff 4 yn Atodiad 1).

4.6. Yn Atodiad 2, ceir dwy astudiaeth achos sydd yn amlinellu sut mae unigolion wedi elwa o'r cymorth mae'r Cyngor yn ei gynnig.

## 5. Edrych ymlaen

5.1. Mae'r sefyllfa o ran diweithdra a'r galw am swyddi yn parhau'n hynod ansicr ac mae'n debygol y bydd newidiadau annisgwyl unwaith eto.


5.2. Mae'r diffyg data a'r oedi yn y ddarpariaeth o ystadegau yn ei gwneud yn anodd ymateb ac i ragweld olion cynnar heriau newydd. Bydd y Tasglu Diweithdra yn parhau i fonitro'r sefyllfa a chynnig arweiniad i'r tîm Gwaith Gwynedd.

5.3. Mae'r diffyg gweithwyr yn debygol o barhau a rhagwelir y bydd ymdrech sylweddol gan y tîm Gwaith Gwyned i gefnogi cyflogwyr ac i baratoi unigolion sydd wedi eu heithrio o waith i ddychwelyd i'r farchnad llafur.

5.4. Un bygythiad pellach sydd ar y gorwel yw ansicrwydd ynglŷn â chyllido'r maes i'r dyfodol. Mae gweithgaredd Gwaith Gwynedd yn llwyr ddibynnol ar gyllid gan Lywodraeth Cymru a'r Rhaglenni Ewropeaidd ac ar hyn o bryd mae gweithgaredd wedi ei raglennu i ddod i ben yn ystod haf 2022.


Atodiad 1

## 1. Cyfraddau diweithdra hanesyddol (% gweithlu yn hawlio budd-dal yn gysylltiedig â chwilio am waith)





Data gan System Weinyddu'r Ganolfan Byd Gwaith, yr Adran Gwaith a Phensiynau o safle StatsCymru (dolen)

## 2. Cynnydd (%) yn y nifer yn hawlio budd-dal yn gysylltiedig â chwilio am waith





Data gan System Weinyddu'r Ganolfan Byd Gwaith, yr Adran Gwaith a Phensiynau

## 3. Niferoedd cymharol yn hawlio budd-dal yn gysylltiedig â chwilio am waith 2019 i 2021




Data o'r Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol drwy law Nomis (dolen)

## 4. Nifer o unigolion wedi eu cefnogi i waith gan Gwaith Gwynedd




Data rheolaeth Gwaith Gwynedd – data 2021/22 ar gyfer saith mis yn unig

Atodiad 2

### Stori 'Rachel'

Cyfeiriwyd Rachel at Gwaith Gwynedd yn Gorffennaf 2020. Derbyniwyd yr atgyfeiriad gan y Tîm o Amgylch y Teulu y Cyngor. Roedd Rachel eisiau cefnogaeth frys gan fod ganddi cyfweliad swydd ymhen ychydig ddyddiau ac er gwaethaf ymgeisio am nifer o swyddi a mynychu nifer o gyfweliadau roedd Rachel yn ei chael hi'n anodd iawn sicrhau cyflogaeth ac wedi colli hyder.

Roedd rhai problemau yng nghartref y teulu ac roedd gan Rachel broblemau iechyd hefyd gan ei bod wedi dioddef anaf i'w hymennydd pan oedd yn ei thridegau cynnar.

Oherwydd rheoliadau COVID, cynhaliwyd pob cyfarfod dros y ffôn a hefyd trwy negeseuon e-bost a thestun. Rhoddwyd cefnogaeth, cyngor ac arweiniad cyn ei chyfweliad swydd yn ogystal â ffug gyfweliad ffurfiol a galwad ffôn ar fore ei chyfweliad swydd.

Er gwaethaf pob cefnogaeth, roedd Rachel yn aflwyddiannus a theimlai eto fod hyn wedi cael effaith ar ei hunanhyder a'i hunan-barch. Cafwyd cyswllt rheolaidd trwy alwadau ffôn, cyfarfodydd ffôn a thestunau rhwng Rachel a'i mentor. Ym mis Tachwedd 2020 gwelodd Rachel hysbyseb swydd gyda Cyngor lleol. Cwblhaodd Rachel ffurflen gais a chafodd ei gwahodd i fynychu cyfweliad. Cefnogwyd Rachel drwy gyfarfod ffôn ar ddiwrnod ei chyfweliad ac er gwaethaf teimlo'n nerfus roedd Rachel yn teimlo'n llawer mwy hyderus nac yr oedd hi'n ei deimlo cyn derbyn cymorth.

Roedd Rachel yn llwyddiannus yn dilyn ei chyfweliad swydd a dechreuodd ei rôl newydd ym mis Ionawr 2021.

### Stori 'John'

Cyfeiriwyd John, sy'n 50 oed ac yn dad i ddau, at Gwaith Gwynedd yn 2019. Roedd yn ddiweddar wedi ei ddiswyddo yn dilyn 20 mlynedd gyda'r un cyflogwr. Teimlai John fod byd gwaith wedi newid yn ddramatig ers iddo fod yn ddi-waith ddiwethaf. Roedd gan John hanes gwaith amrywiol ond roedd ganddo ddiddordeb mewn bwyd a'r diwydiant lletygarwch hefyd.

Oherwydd amgylchiadau teuluol roedd John hefyd yn digartref ac yn aros gyda ffrind. Roedd hyn yn achosi straen sylweddol i John ac yn cael effaith negyddol ar ei iechyd. Cefnogwyd John yn ystod cyfarfodydd wyneb yn wyneb rheolaidd yn y ganolfan waith a'r llyfrgell leol. Yn Tachwedd 2019 gwelodd John gyfle i fynychu diwrnod gwybodaeth ym mwyty lleol. Mwynhaodd John y profiad yn fawr.

Mewn ymateb yn Ionawr 2020 trefnodd Gwaith Gwynedd i John fynychu sesiynau hyfforddi mewn bwyty lleol. Yn ystod yr amser hwn cafodd John gyfle i gwrdd ag eraill yn yr un sefyllfa yn ogystal â chael profiad ymarferol o greu a choginio prydau mewn cegin ddiwydiannol.

Ddiwedd mis Tachwedd 2020, sicrhaodd John swydd mewn bwyty newydd oedd yn agor ym Mangor.